Duw Diddanwch

Adnodau agoriadol:

"Bendigedig fyddo Duw a Thad
ein Harglwydd Iesu Grist,
y Tad sy'n trugarhau
a'r Duw sy'n rhoi pob diddanwch.
Y mae'n ein diddanu ni ymhob gorthrymder,
er mwyn i ninnau,
trwy'r diddanwch a gawn ganddo ef,
allu diddanu'r rhai sydd dan
bob math o orthrymder." *2 Corinthiaid 1: 3 – 4.*

Geiriau agoriadol:

O ganfod Duw ei hun, rhodio yn ei gwmni, ymddiried yn ei ofal, a rhannu ei fywyd yn Iesu Grist, y mae canfod diddanwch. Nid dihangfa oddi wrthbrofiadau anodd bywyd yw'r diddanwch hwn, ond cael Duw yn gydymaith ac yn gymorth i ni mewn gwynfyd a gwae.

Meddyliwch yn weddïgar dros y geiriau hyn ac ystyriwch eu neges i'ch bywyd chi.....
"Ni ddichon enaid feddiannu cysur heb feddiannu Duw, ond ni ddichon neb feddiannu Duw heb feddiannu cysur." *Rhys Prydderch.*

Gweddi agoriadol:

Dad, llawn diddanwch,
yr wyt yn ymgeleddu ac yn nerthu
pawb sydd mewn angen
a phawb sy'n disgwyl wrthyt:
edrych arnom yn ein gofidiau,
dysg ni i ymddiried ynot,
a gad i ni brofi'n helaeth
o ddiddanwch dy gwmni
a'th gariad. Amen.

Emyn: 755 Caneuon Ffydd.

Darllen: Ioan 14: 15 – 27.

Anerchiad (rhan 1):

Ar ddechrau'r bennod a ddarllenwyd yn efengyl Ioan, mae Iesu'n cysuro ei ddisgyblion trwy eu sicrhau nad oedd ei ymadawiad yn mynd i fod yn rhywbeth terfynol. Wedi iddo egluro hyn mae'n mynd rhagddo i'w cysuro ymhellach gyda'r addewid o ddyfodiad yr Ysbryd Glân. Yn yr hen gyfieithiadau y gair a ddefnyddid am yr Ysbryd oedd y 'Diddanydd'. Mae'r gair 'diddanu' erbyn heddiw wedi colli llawer o'i ystyr. Ei ystyr bellach yw rhywun sy'n diddanu ac yn cysuro pan fo rhywun yn drist ac yn anhapus. Er bod yr Ysbryd Glân yn ein codi a'n dyrchafu, mae'r ystyr bellach yn rhy gyfyng. Yn y cyfieithiad newydd, 'Eiriolwr' yw'r gair a ddefnyddir. Mae'n werth sylwi ar y gair Groeg am Ysbryd, sef 'paracletos' a'i ystyr wreiddiol yw 'rhywun wedi'i alw i gynorthwyo.' Gellir meddwl am fargyfreithiwr yn dadlau achos y cyhuddedig mewn llys barn. Yr Iesu byw yw ein heiriolwr gyda'r Tad ac mae'r Tad wedi danfon eiriolwr arall i fod gyda'i bobl, sef yr Ysbryd Glân. Cysur Iesu i'w ddisgyblion, ac yntau ar fin eu gadael, yw na fyddant yn amddifad, yn llythrennol 'heb dad'. Mae Iesu yn mynd yn ei flaen i ddweud, "ni all y byd ei dderbyn ef, am nad yw'r byd yn ei weld nac yn ei adnabod ef" (adn 17). Beth yw ystyr y gair 'byd'? Y rhai hynny sy'n byw eu bywydau heb Dduw. Y rhai hynny sy'n diystyru Duw yn gyfan gwbl a thystio nad ydio'n bod. Un gyda'r nos, gefn gaeaf, treuliais oriau gyda seryddwyr yn edrych ar yr wybren trwy delesgob. Gwelais bethau nas gwelais o'r blaen. Rhyfeddod y cylchoedd o gwmpas y blaned Sadwrn a'r pedair lleuad oedd yn troelli o gwmpas y blaned Iau. A'r Llwybr Llaethog wedyn. Pethau na wyddwn nemor ddim am eu bodolaeth. Mae'r dyn sy'n gwrthod derbyn bodolaeth Duw yn y byd ac yn gwrthod rhoi cyfle i Dduw flodeuo a datblygu yn ei fywyd yn debyg iawn i mi y nosweithiau cyn i mi brofi'r wefr o 'ddarganfod' y sêr a'r planedau. I dderbyn Y Diddanydd, yr Eiriolwr, mae'n rhaid aros a disgwyl mewn gweddi i'r Ysbryd ddod arnom.

Emyn: 591 Caneuon Ffydd.

Gweddi:
Cyfeiria gerddediad ein traed, O Arglwydd. Bugeilia ein meddyliau crwydredig, a thywys ein dymuniadau. Gwna ni i fod yn barod i wrando'r Gair, o boed i'r Gair fod yn fywyd o'n mewn. Boed i Ysbryd y Gwirionedd ddod i'n plith i'n hargyhoeddi ni.

Caniatâ i ni gael mwynhau dy gymdeithas Di yn ein haddoliad, a dyro i ni'r sicrwydd fod tangnefedd arhosol yn eiddo'r rhai a roddant eu pwys arnat ti. Mae pleserau dy addoliad i ddyfod inni, a bendigwn dy enw amdanynt. Boed i Ysbryd yr addewid ddwyn ei hyfrydwch i'n plith yr awr hon.

Cyffeswn ein bod wedi byw yn rhy hir o lawer heb ei ddylanwad. Mor araf y dychwelwn ni atat Ti, O ein Duw. A phan ddychwelwn, mae'n aml yn hwyr y dydd; yn fynych iawn y ddrycin fydd yn ein gyrru atat. Dim ond wedi i ni geisio llawer ffordd, ac yfed o ffynhonnau drylliedig, ac ymgynghori â llawer meddyg nad yw'n gryf i iacháu, wedi hynny yn aml y byddwn yn troi adref. Ond er gwaetha'r cwbl yr wyt yn ein derbyn.

Weithiau fe fydd rhaid i ni deithio ymhellach cyn cyrraedd edifeirwch. Dirgel gredwn mai rhyw bleser neu rhyw gyffur yw'r feddyginiaeth i'n heneidiau. Yn ein ffolineb, Arglwydd, nac anghofia ni. Na ollwng yr edefyn cuddiedig sy'n ein clymu wrth ein cartref.

Gad i ni wrando ar dy lais, ac ufuddhau i gymhellion dy ewyllys. Boed i'n hymwneud ni â'n gilydd fod o dan ddylanwad Ysbryd y Gwirionedd. Rho gymorth inni ymddwyn gan wneud y gwirionedd yn ganllaw i ni bob amser. Dyro gymorth i ni lefaru a'r gwirionedd yn cadw drws ein gwefusau. Yn wir, gweddïwn am gael gras i feddwl ar hyd llwybrau'r gwirionedd, fel y bydd ein bywydau yn gyfan yn ei afael.

Boed i'r gwirionedd droi'n ras i ni, fel y bydd y gwirionedd a ddywedwn, a'r gwirionedd a wnawn, yn wirionedd grasol a chariadlon.

Rho i ni ddysgu gwerthfawrogi'n gilydd yn ddidwyll. Dyro'r gras i ni ddiolch pan na fydd hynny'n hawdd.

Ym mhob caddug arwain ni i weld gogoniant Iesu Grist, a dyro i ni'r llawenydd a'r gobaith sy'n dod i'r neb a gredo ynddo. Pan fyddwn ni yn y niwl, a'n golygon yn bŵl, ei weled a goleua'r daith i ni.

Cadw a chywira dy addewid i ddod atom drwy dy lân Ysbryd. Deued yr Ysbryd atom i roi breintiau ei gymuned ysbrydol i ni. Bydded ynom y meddwl a oedd yng Nghrist Iesu – y meddwl gostyngedig a all nesáu at y gwan a'r trallodus. A gwna ni oll yn ddisgyblion da ac yn wasanaethwyr iddo, yn ei enw Ef, ein Harglwydd a'n Gwaredwr, Amen.

Rhagor o Weddïau yn y Gynulleidfa.

Cydadrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd:

Anerchiad (rhan 2):

Er i'r disgyblion dderbyn cysur o eiriau Iesu, eto i gyd, mae'n siŵr eu bod yn ddigon digalon o feddwl fod y Meistr yn eu gadael. Roedden nhw wedi treulio tair blynedd glos ac agos yn ei gwmni ac yntau yn eu cwmni hwythau. Awr anodd yw awr ffarwelio. Ond mae'n eu sicrhau mai ymadawiad dros dro fyddai hyn. Ar ôl ei farwolaeth, er na fyddai'r byd yn ei weld, fe fyddai'r disgyblion oherwydd ei fod yn fyw a hwythau'n fyw'n ysbrydol drwy'r Ysbryd Glân, ac felly yn abl i'w weld mewn ffordd na allai'r byd anghrediniol mo'i weld. Diddorol yw sylwi mai i'r disgyblion a'r rhai a'i carai yr ymddangosodd Iesu wedi'r atgyfodiad. Er mai at yr ymddangosiadau y cyfeirir yn y rhan yma mae'n rhaid cofio mai presenoldeb parhaol y Crist atgyfodedig yw'r Ysbryd Glân. Tra'r oedd ef ar y ddaear, yn nyddiau'i gnawd, cyfyngid ef i le ac amser. Wedi ei ymadawiad â'r disgyblion mae'n gallu bod yn bresennol ymhob man bob amser a chyda'i bobl yn wastadol trwy ei Ysbryd. Nid oes modd cyfyngu ar yr Ysbryd. Dywedodd Iesu ei hun 'fod y gwynt yn chwythu lle y mynno.'

Cyfnod o distawrwydd:

Emyn: 601 Caneuon Ffydd.

Eiriolaeth:

Rhown ddiolch a mawl i ti, O Dduw,
am yr amrywiol ffyrdd yr wyt yn datguddio dy hun
ac yn gweithredu yn dy fyd ac yn dy eglwys.
Yn arbennig, diolchwn am dy ymwneud â ni trwy dy Ysbryd Glân:
am ei rym yn y greadigaeth,
yn dwyn trefn o anrhefn a goleuni o dywyllwch,
ac am ei egni creadigol yn ein bywyd ni.
Diolchwn am iddo ysbrydoli'r proffwydi i lefaru dy Air
a thywys dy bobl i ddeall dy ewyllys.
Diolchwn am iddo ddisgyn ar Iesu yn ei fedydd
i'w arfogi ar gyfer ei weinidogaeth
ac i'n harwain ninnau i'w adnabod a'i ddilyn.
Diolchwn am iddo ymdywallt ar dy ddisgyblion ar y Pentecost
cyntaf i'w gwisgo â grym i dystio i ti
ac i adnewyddu a bywhau dy eglwys heddiw yn ei gwaith.
Diolchwn am ei oleuni a'i arweiniad yn hanes y ddynoliaeth;
yn natblygiad gwareiddiad,
yn narganfyddiadau'r gwyddonydd,
yng ngweledigaeth y bardd a dawn yr artist.
Diolchwn am ei bresenoldeb a'i nerth yn ein bywydau ninnau,
yn ein tywys i adnabod a chredu yn Iesu,
yn ein cynnal yn ein hargyfyngau
ac yn ein hysbrydoli i ymroi i waith y deyrnas.
Arglwydd, agor ein calonnau a'n meddyliau
i'w anadliadau bywiol
ac i'w egnïoedd a'i ddoniau.

Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd nerth ac adfywiad:
ymwêl â'th eglwys
i'w deffro o'i chysgadrwydd
a'i gwneud yn dyst ffyddlon ac effeithiol i'r efengyl.

Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd tangnefedd:

tywys pobl ym mhobman i heddwch a chytgord;
gwared hwy o bob gormes a chreulondeb
ac arwain cenhedloedd y ddaear i undod teulu Duw.

Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd diddanwch a chysur:
bydd yn nerth i'r gwan a'r tlawd;
bydd yn gwmni i'r unig a'r rhai sydd mewn tristwch;
bydd yn arweinydd i'r rhai sydd ar goll mewn anobaith.

Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd gallu a gwirionedd:
gorchfyga ein hofnau a gwna ni'n wrol ynot ti;
rhyddha ni o'n difaterwch a'n syrthni
ac ennyn fflam ar allor ein heneidiau.

Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd Crist:
tyn ni i bresenoldeb ein Harglwydd Iesu;
mwyda'n calonnau caled yn llifeiriant ei gariad;
ysguba ymaith ein pechodau â'i faddeuant
a llanw ni â nerth a llawenydd ei fywyd.

Yr wyt ti fel y gwynt yn chwythu lle y mynni,
yn dod atom ar hyd llwybrau anhysbys ac annisgwyl,
yn cyffwrdd â ni yn holl brofiadau ein bywyd;
tyrd atom yn awr,
ac aros gyda ni dros byth. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts.

Anerchiad (rhan 3):

"Ond bydd yr Eiriolwr, yr Ysbryd Glân, a anfona'r Tad yn fy enw i, yn dysgu popeth i chwi" (Ioan 14: 26). Bydd yr Ysbryd Glân, yn ôl yr adnod hon, yn ei swydd fel athro yn parhau gwaith yr Athro Mawr ei hun. Ond nid cyflwyno unrhyw wybodaeth newydd a wna ond yn hytrach atgoffa'r disgyblion o'r hyn roedd Iesu wedi'i ddweud a'i ddysgu iddyn nhw. Trwy waith yr Ysbryd arnyn nhw y daeth y disgyblion, yn dilyn yr atgyfodiad a'r Dyrchafael, i ddeall a gwerthfawrogi ystyr neges ac arwyddocâd bywyd Iesu.

I'r diwedd bydd rhaid i'r Cristion gario'r llythyren D – Dysgwr. Bydd yr Ysbryd yn ei arwain o gam i gam, yn ddyfnach i ddirgelwch bodolaeth Duw sy'n ymwneud â ni o ddydd i ddydd. Ni all y Cristion ddweud, gallaf bwyso ar y rhwyfau bellach gan fy mod yn gwybod y cwbl sydd i'w wybod a deall y cwbl sydd i'w ddeall. Mae'r Ysbryd yn cyfoethogi ein bywydau a'n doniau. "Ond nid rhyw nefoedd fach breifat i ni ein hunain a rydd yr Ysbryd Glân inni, ond yn hytrach y gallu i droi ein doniau yn fendith i eraill."

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Emyn: 571 Caneuon Ffydd.

Cwestiynau i'w trafod:

"Pobl ufudd i orchymyn eu Meistr oedd y bobl a brofodd fedydd yr Ysbryd Glân ar y Pentecost." Oedd hynny'n wir, mewn difri? Darllenwch y darn unwaith eto yn Actau 2.

Fyddech chi'n gallu tystio fod yr Ysbryd ar waith ym mywyd eich eglwys chi? Tybed ydyn ni'n rhy barod i wthio'n syniadau ni ein hunain ar draul gwrando ar arweiniad yr Ysbryd?

Sut fyddech chi'n mynd ati i esbonio i'r dosbarth derbyn beth yw'r Ysbryd Glân? Cofiwch mai siarad gyda' oedolion ifanc yn eu harddegau fyddwch chi. Trafodwch ddau neu dri o bethau am yr Ysbryd.

Tybed ydyn ni'n strwythuro'n hoedfaon yn rhy fanwl fel nad oes lle i'r Ysbryd dreiddio? Tybed oes yna wendid mewn llunio gwasanaeth manwl fel hwn? Oes yna le i gyfrolau o wasanaethau cyflawn ar gyfer eglwysi?

Dysgwr ydi'r Cristion. Sut ydych chi'n ymateb i hyn? Ydi hyn yn sarhad ar eich tystiolaeth Gristnogol ar hyd y blynyddoedd?

Cyfnod o ddistawrwydd:

Emyn: 576 Caneuon Ffydd.

Y Fendith:

Ysbryd, byw y deffroadau,
disgyn arnom ni
yn yr oedfa hon
a bywha ni. Amen.